wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Social Services for Adults
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

Strategaeth Gomisiynu

2006/09

Cymorth i Ofalwyr

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, mewn print bras, ar gryno ddisg clywedol, DVD laith Arwyddion Prydain ac ar ffurf .pdf ac arddull hawdd ei darllen. Am fwy o wybodaeth neu i wneud cais am gopi mewn un o'r fformatiau uchod, ffoniwch 01978 298616, anfonwch ffacs at 01978 298029, e-bostiwch commissioning@wrexham.gov.uk neu ysgrifennwch at y Tîm Comisiynu a Phartneriaethau, Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Ail Lawr, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8ZE.

Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr (2006-2009)

CYNNWYS

	Tudalen		Tudalen
Crynodeb	1	Siart cylch o wasanaethau presennol	16
Cyflwyniad	5	Cloriannu gwasanaethau presennol	17
Diffiniadau	6	Blaenoriaethau at Weithredu	18
		Geiriau Gofalwyr	19
Cyd-destun y Strategaeth:-			
		Nodau a Gweledigaeth	21
Cyfreithiol	6	Canlyniadau ac Amcanion	22
Demograffig	7	Dangosyddion Perfformiad	22
Economaidd	8		
Strategol	9		
Cwmpas a Therfynau'r Strategaeth	10	Camau Gweithred / Cynlluniau Prynu	24
Angen:-			
Cenedlaethol	11	Proses Ymgynghorol	41
Lleol	11	Proses Arolygu	42
Tabl Cryno o wasanaethau presennol	12	Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth	43

Crynodeb

Mae Strategaeth Gomisiynu Gofalwyr yn tynnu ynghyd y prif faterion sy'n effeithio ar ofalwyr anffurfiol, yr hyn a wyddom am eu hanghenion a beth yw ein gwasanaethau cefnogi presennol ar gyfer gofalwyr. Mae'n cyflwyno'r camau y mae partneriaeth o adrannau perthnasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Iechyd a mudiadau yn y Sector Gwirfoddol yn bwriadu eu cymryd i roi sylw i unrhyw fylchau yn y gwasanaeth a datblygu'r gwasanaethau mwyaf priodol i ddiwallu anghenion gofalwyr anffurfiol.

Diffinio 'gofalwr':-

Yn y gyfraith, diffiniad Gofalwr yw 'rhywun (16 oed neu hŷn) sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal sylweddol yn rheolaidd i oedolyn neu blentyn anabl. Gall gofalwyr fod yn berthynas neu beidio, a gallant fod yn byw gyda'r rhai y maent yn gofalu amdanynt neu beidio. Diffiniad gofalwr ifanc yw unrhyw ofalwr dan 18 oed.' (Nid yw'r diffiniad hwn o 'ofalwr' yn berthnasol i ofalwyr maeth na gofalwyr plant sy'n derbyn gofal.)

Hawliau cyfreithiol gofalwyr

Mae Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995 yn rhoi hawl i ofalwyr ofyn am asesiad fel rhan o'r asesiad gofal yn y gymuned.

Mae Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 yn rhoi hawl i ofalwyr gael eu gwasanaethau ac asesiad eu hunain, waeth be fo eu hasesiad gofal yn y gymuned.

Mae Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 yn rhoi hawl i ofalwyr gael gwybodaeth a hawl i gael cynnwys gwaith, dysgu gydol oes a hamdden yn yr asesiad.

Carers UK

Yr awdurdod lleol sydd â'r ddyletswydd gyfreithiol drwyddi draw i sicrhau bod hawliau gofalwyr yn cael eu parchu. Gall yr awdurdod lleol roi'r cyhoeddusrwydd a gwasanaethau angenrheidiol ei hun, neu gontractio gyda sefydliadau gwirfoddol neu breifat i ddarparu ar ei ran.

Gwybodaeth ddemograffig am Fwrdeistref Sirol Wrecsam – poblogaeth 128,476

- Mae 14,875 o bobl yn Wrecsam, yn cynrychioli 11.6% o'r boblogaeth, yn ystyried eu bod yn darparu gofal heb ei dalu
- 3,391 pobl, yn cynrychioli 2.6% o'r boblogaeth, yn dweud eu bod yn darparu gofal heb ei dalu am 50 awr yr wythnos a mwy
- Nodwyd bod 457 o blant a phobl ifanc yn ofalwyr ifanc

(*Cyfrifiad Poblogaeth 2001*)

Gall gofalwyr lleol gofrestru gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS) a derbyn taflen newyddion reolaidd o wybodaeth – mae modd defnyddio hon fel ffurf ar gofrestr leol o ofalwyr. Fodd bynnag, dim ond tua 380 sydd ar y gofrestr hon ar hyn o bryd. Mae oddeutu 60 o blant a phobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn derbyn gwasanaethau Gofalwyr Ifanc NCH Wrecsam.

Cyd-destun Strategol a Chwmpas

Ymateb yr Adran yw'r Strategaeth hon (ar ei fwriadau o ran cefnogi gofalwyr) i'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant, (HSC&WbS) - y ddogfen drosfwaol sy'n llywio cyfeiriad strategol gwasanaethau gofal cymdeithasol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Gofalwyr yn rhoi sylw i'r gefnogaeth leol i ofalwyr heddiw ac yn y dyfodol, sy'n cael ei darparu naill ai'n uniongyrchol gan y sefydliadau statudol neu'n anuniongyrchol trwy noddi amrywiol gyrff a mudiadau gwirfoddol. Gwasanaethau yw'r rhain sydd â'u canlyniadau'n benodol ar gyfer gofalwyr, yn hytrach na'r rhai dan eu gofal (er ein bod yn ymwybodol fod gwasanaethau o safon ar gyfer y rhai dan eu gofal o fantais uniongyrchol i'r gofalwyr hefyd).

Camau Arfaethedig

Mae'r camau arfaethedig yn cael eu cyflwyno yn y Cynllun Gweithredu dan un flaenoriaeth drosfwaol gyda thri phrif ganlyniad i'w cyflawni. Islaw hyn, caiff tri amcan blaenaf ar gyfer gwaith eu nodi a thabl o gamau y mae'r partneriaid lleol yn bwriadu eu cymryd tuag at gyflawni'r prif ganlyniadau hynny.

Y **flaenoriaeth drosfwaol** yw bod 'amrywiaeth hyblyg o gefnogaeth ar gael yn gyfartal i holl ofalwyr drwy'r fwrdeistref sirol i gyd'

Y tri phrif ganlyniad yw:-

1. bod mwy o bobl yn gweld eu hunain fel gofalwyr ac yn hawlio cefnogaeth
2. bod gan grwpiau proffesiynol systemau'n bodoli i adnabod gofalwyr a'u cysylltu â chefnogaeth
3. bod amrywiaeth o wasanaethau sy'n cefnogi iechyd emosiynol, meddyliol a chorfforol gofalwyr, gan gynnwys darparu seibiannau byr priodol a hyblyg

Yr Amcanion at Weithredu yw:-

1. manteisio mwy ar asesiadau
2. datblygu dewis hyblyg o wasanaethau i gynnal gofalwyr
3. datblygu darpariaeth seibiannau byr i gynnwys cefnogaeth seiliedig ar y teulu

Adnoddau a Chomisiynu

Mae polisi'r llywodraeth wedi symud canolbwynt asesiadau o wasanaethau i ganlyniadau. Mae canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na gwasanaethau penodol yn helpu cynllunio a chyflwyno cefnogaeth sy'n gallu bod yn fwy hyblyg i ddiwallu angen unigolion.

Er mwyn hyrwyddo datblygu'r hyblygrwydd hwn mewn gwasanaethau a gwella effeithiolrwydd cost, mae Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol (SSD) a'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yn bwriadu cronni'r arian sydd ar gael naill ai o gyllido creiddiol neu grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i ddefnyddio ar draws carfanau cleientiaid traddodiadol ble bynnag y bo'n briodol. Mae'r Strategaeth yn dangos fod angen ail-gyflunio rhai gwasanaethau gan ddefnyddio ymchwil ddiweddar fel arweiniad ac mae'n rhwyddach ac yn fwy effeithiol cyflawni hyn o edrych yn gyffredinol ar y darlun mwy. Ar gyfer rhai mathau o gefnogaeth bydd tendrau'n cael eu cynnig i gomisiynu amrywiaeth a grwpiau newydd o wasanaethau. Mae'r camau cyntaf yn cael eu hamlinellu yn y Cynllun Prynu sydd yn y Strategaeth.

Mae'r asiantaethau partner yn bwriadu cydweithio i sefydlu Canolfan Gofalwyr yn y dref fel bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i bobl a mwy o ofalwyr yn cael cyngor ar eu hawliau ac yn cael eu cefnogi yn eu swyddogaeth.

CYFLWYNIAD

Mae deddfwriaeth y llywodraeth yn rhoi dyletswyddau a chyfrifoldebau ar awdurdodau lleol o ran eu dinasyddion sy'n gofalu am bobl eraill yn anffurfiol, heb dâl. Erbyn hyn mae amryw ddarnau o ddeddfwriaeth y llywodraeth, y diweddaraf wedi dod i rym ym mis Ebrill 2005, sy'n cydnabod gofalwyr fel pobl agored i niwed sy'n gallu bod mewn perygl o ddioddef afiechyd ac allgáu cymdeithasol o ganlyniad i'w cyfrifoldebau gofalu. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi hawliau i ofalwyr gael asesiad a gwasanaethau cefnogi iddynt eu hunain ac mae'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran yr hawliau hyn.

Mae'r Strategaeth Gomisiynu hon yn crynhoi'r prif faterion sy'n effeithio ar ofalwyr, beth a wyddom am eu hanghenion a'n cefnogaeth bresennol i ofalwyr. Mae'n cyflwyno'r camau y mae'r asiantaethau partner yn bwriadu eu cymryd i roi sylw i unrhyw fylchau yn y gwasanaeth a datblygu'r gwasanaethau mwyaf priodol i ddiwallu anghenion gofalwyr.

Mae'r Strategaeth hon yn tynnu ynghyd, yn diweddaru ac yn datblygu gwybodaeth a roddwyd o'r blaen yn Strategaeth Gofalwyr Wrecsam a gyhoeddwyd yn 2002. Ysbrydolwyd gan ymchwil sefydliadau fel Carers UK a thrwy ymgynghoriadau lleol. Felly, mae modd defnyddio'r Strategaeth a'r ddogfen ar wahân, yr asesiad anghenion a wnaed ar ei chyfer, fel ffynonellau data a gwybodaeth sy'n berthnasol i ofalwyr yn lleol a ledled y wlad. Mae'r Asesiad Anghenion i'w gael trwy wneud cais i'r Tîm Cynllunio a Chomisiynu SSD.

Tîm Cynllunio a Chomisiynu SSD

Cymeradwywyd gan Fwrdd Gweithredol CBSW Gorffennaf 2006

Diffiniadau:-

- Diffiniad Gofalwr yw ‘rhywun (16 oed neu hŷn) sy’n darparu neu’n bwriadu darparu gofal sylweddol yn rheolaidd i oedolyn neu blentyn anabl. Fe all fod yn berthynas neu beidio, a gall fod yn byw neu beidio gyda’r un sy’n derbyn y gofal’. *
- Diffiniad gofalwr ifanc yw unrhyw ofalwr dan 18 oed.

Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 a Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 Canllawiau Polisi Cyfunol, DoH Awst 2005

- nid yw gofalwyr maeth a gofalwyr plant dan ofal yn dod dan y diffiniad hwn o ‘ofalwr’

Cyd-destun y Strategaeth Gomisiynu

Cyd-destun Cyfreithiol

Mae Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995 yn rhoi hawl i ofalwyr ofyn am asesiad fel rhan o’r asesiad gofal yn y gymuned.

Mae Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 yn rhoi hawl i ofalwyr gael eu gwasanaethau eu hunain ac asesiad heb ystyried asesiad gofal yn y gymuned.

Mae Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 yn rhoi hawl i ofalwyr gael eu hysbysu a chael cynnwys eu hawliau i gael gwaith, dysgu gydol oes a hamdden yn yr asesiad

Carers UK

Cyd-destun Demograffig

Gofynnodd cwestiwn newydd yng nghyfrifiad poblogaeth 2001 a oedd pob aelod o'r aelwyd yn ofalwr ac, os felly, nodi faint o ofal heb ei dalu yr oeddent yn ei ddarparu; 1-19 awr yr wythnos, 20-49 awr yr wythnos neu dros 50 awr yr wythnos.
Ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam:-

- Dywedodd 14,875 o bobl, yn cynrychioli 11.6% o'r boblogaeth, eu bod yn darparu gofal heb ei dalu
- Dywedodd 3,391 pobl, yn cynrychioli 2.6% o'r boblogaeth, eu bod yn darparu gofal heb ei dalu am fwy na 50 awr yr wythnos
- Nodwyd 457 o blant a phobl ifanc fel gofalwyr ifanc
  (*Cyfrifiad Poblogaeth 2001*)

Ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, caiff gofalwyr eu hannog i gofrestru gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS) ac yna dderbyn taflen newyddion reolaidd o wybodaeth – mae modd defnyddio hon fel ffurf ar gofrestr leol o ofalwyr. Ar hyn o bryd mae tua 300 ar y gofrestr hon.

Cofrestrwyd tua 60 o blant a phobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam gyda'r gwasanaeth NCH Gofalwyr Ifanc..

Dwy duedd arwyddocaol mewn newid cymdeithasol yw bod pobl wedi gwahanu oddi wrth aelodau eu teulu estynedig a bod merched yn disgwyl cael dewis cyfartal i ddilyn gyrfa a gwaith llawn-amser. Fodd bynnag, fel sy'n amlwg o'r ystadegau, y safon ddiwylliannol eto mai perthnasau benyw sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth ofalu anffurfiol. Bydd goblygiadau i hyn wrth ddatblygu gwasanaethau i gynnal gofalwyr oherwydd:-

- bod merched yn rhan mor allweddol o'n gweithlu lleol
- bod gan ofalwyr erbyn hyn hawliau cryfach i gael cefnogaeth wrth ddilyn eu gyrfâu
- Ers adroddiad Wanless, mae tueddiadau polisi gofal iechyd a chymdeithasol y Llywodraeth yn symud yn gryfach hyd yn oed tuag at ofal yn y gymuned

Cyd-destun Economaidd

a) Sut mae gofalwyr yn arbed arian i'r gwasanaethau cyhoeddus:-

Gwnaed ymchwil i ganfod gwerth ariannol gofalwyr anffurfiol trwy gymharu eu darpariaeth gyda chost gyffelyb gofal cartref am dâl (gwelwch 'Gwybodaeth Gefndir' i gael rhagor o fanylion). Dengys hyn fod cost y gofal y mae gofalwyr anffurfiol yn ei ddarparu ar gyfartaledd fwy neu lai'n gymaint ag y bydd y Llywodraeth yn ei wario ar wasanaethau iechyd:-

Gwerth gofal anffurfiol ar gyfartaledd sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru = £3.52 biliwn
Gwariant y llywodraeth ar iechyd yng Nghymru = £3 biliwn

b) Materion yn effeithio ar y gweithlu lleol:

Mae 3 o bob 5 o bobl yn debygol o ddod yn ofalwyr ar ryw gyfnod yn eu bywydau. I ferched, mae hyn yn codi i 50:50 erbyn iddynt gyrraedd 59 oed. Pobl rhwng 45 a 59 oed yw'r mwyaf tebygol o fod yn ofalwyr. Yn aml bydd pobl yn dod yn ofalwyr heb fawr ddim rhybudd. Gwyddom y bydd nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth yn cynyddu ar yr un pryd â gostyngiad o 8.2% yn nifer y merched rhwng 35 a 55 oed, h.y. gostyngiad yn yr union grŵp oedran sy'n cynnwys y nifer mwyaf o weithwyr gofal anffurfiol (heb eu talu) a phroffesiynol. Mae'n amlwg bod y ffeithiau hyn â goblygiadau economaidd i'r gweithlu lleol, yn enwedig oherwydd bod y duedd tuag at fwy o ofal yn y gymuned, sy'n golygu y bydd mwy a mwy o ddibynnu ar ofalwyr anffurfiol.

Pa un ai yw rhywun wedi tyfu gyda swyddogaeth ofalu, wedi derbyn y swyddogaeth ar fyr rybudd neu wedi cynyddu eu cyfrifoldebau gofalu'n raddol, mae gofalu'n effeithio ar allu rhywun i geisio neu aros mewn gwaith cyflogedig. Mae goblygiadau'r ffaith hon yn ddifrifol ar ddarparu gwasanaethau i gefnogi gofalwyr anffurfiol yng ngoleuni hawliau gofalwyr sydd newydd gynyddu i gael cefnogaeth i weithio os ydynt yn dymuno.

c) Costau ariannol i unigolion a theuluoedd:-

Mae arolygon niferus yn datgelu sut mae gofalu'n achosi risgiau ariannol sylweddol i ofalwyr a'u teuluoedd e.e.

- mae bron i 8 allan o bob 10 gofalwr yn gweld eu bod mewn sefyllfa waeth yn ariannol wrth ddod yn ofalwr
- ar ôl 5 mlynedd o ddarparu llawer o ofal, mae gofalwyr yn dweud bod eu sefyllfa ariannol yn sylweddol waeth. (gwelwch 'Gwybodaeth Gefndir' i gael rhagor o fanylion).

Mae pwysau ariannol yn peryglu allgáu cymdeithasol ac ychwanegu at risgiau straen ac afiechyd y meddwl sydd eisoes yn gyffredin mewn swyddogaeth ofalu.

Cyd-destun Strategol

Mae'r Cynllun Comisiynu hwn yn disodli Strategaeth Gofalwyr 2003 ac yn ymateb y partneriaid lleol (o ran bwriadau i gefnogi gofalwyr) i'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant, (HSC&WbS) - y ddogfen drosfwaol sy'n llywio cyfeiriad strategol gwasanaethau gofal cymdeithasol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Bwriad creu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hybu agenda Wanless a pheri gweithio llawer agosach rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Felly, mae'r Cynllun Comisiynu Gofalwyr hwn yn dilyn y blaenoriaethau allweddol a gytunwyd gan Grŵp Rhaglen Gofalwyr yr HSC&WbS a dylid ei ddatblygu ar y cyd a phartneriaid a budd-ddeiliaid ble bynnag y bo modd.

Cyhoeddwyd Adolygiad ar y Cyd o Wasanaethau Cymdeithasol Wrecsam ym mis Chwefror 2004. Yn rhannol mae'r Cynllun Comisiynu hwn yn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad hwnnw.

Mae gofalwyr eu hunain yn dweud mai'r hyn sy'n cyfrif fwyaf iddynt yw cefnogaeth o safon ar gyfer y rhai dan eu gofal. Felly, wrth gefnogi gofalwyr, mae angen darllen a datblygu'r Cynllun hwn ar y cyd â chynlluniau perthnasol eraill fel y Cynllunio Comisiynu Gwasanaethau i Bobl Hŷn.

Cwmpas a therfynau'r Strategaeth hon

Mae'r Strategaeth Gomisiynu hon yn crynhoi'r hyn a wyddom o adolygiad o gefnogaeth bresennol i ofalwyr. Gwasanaethau yw'r rhain sydd â chanlyniadau'n benodol ar gyfer gofalwyr, yn hytrach na'r rhai dan eu gofal (er ein bod yn ymwybodol o'r budd uniongyrchol i ofalwyr o wasanaethau o safon ar gyfer y rhai dan eu gofal).

Mae Grŵp Rhaglen Gofalwyr y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant (HSC&WbS) yn ymwneud ag anghenion holl ofalwyr gan gynnwys Gofalwyr Ifanc a bwriad eu Cynllun Gweithredu yw trin hyn fel cyfrifoldeb ar y cyd rhwng asiantaethau. Lle nodwyd anghenion plant o ran gofalwyr ifanc neu blant anabl, bydd Grŵp y Rhaglen yn trosglwyddo cyfrifoldeb dros roi sylw iddynt i Fframwaith Partneriaeth Wrecsam.

Mae'r Strategaeth Gomisiynu hon yn disodli Strategaeth Gofalwyr 2003 ac yn ymateb y bartneriaeth leol (o ran bwriadau i gefnogi gofalwyr) i'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant, (HSC&WbS) - y ddogfen trosfwaol sy'n llywio cyfeiriad strategol gwasanaethau gofal cymdeithasol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.
Dylid nodi bod angen cynyddol i roi sylw i faterion gwasanaeth trosiannol sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc yn newid yn ofalwyr aeddfed. Ar hyn o bryd mae Grŵp Rhaglen Strategaeth Gofalwyr HSC&Wb yn cadw golwg dros angen a datblygu gwasanaethau ar gyfer y grŵp hwn o bobl.

Angen

Cenedlaethol

Darganfu arolwg gan Carers UK yn 2003 fod “cyllido annigonol cronig o ofal cymdeithasol yn gadael gofalwyr i gau’r bylchau gyda chanlyniadau arwyddocaol i’r gofalwyr - iechyd meddyliol a chorfforol gwael, dim gobeithion gwaith, cysylltiadau dan bwysau a hyd yn oed anwybyddu eu hawl dynol sylfaenol i fywyd teuluol”. Ar waethaf y llwyth o ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd diweddar, mae tystiolaeth yn dal bod “hawliau y brwydrwyd drostynt eto heb roi gwir ddewisiadau i ofalwyr”. Gwnaeth Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr ymchwil a welodd bod angen yn cael ei ddosbarthu’n 3 phrif faes:-

- Gwybodaeth
- Ymgynghori a chynnwys gofalwyr ac asesiadau gofalwyr
- Anghenion iechyd gofalwyr a gwasanaethau lleol

Lleol

O dderbyn y niferoedd isel iawn o ofalwyr sydd wedi cofrestru gyda gwasanaethau ac yn hysbys i’r Adran, mae tystiolaeth o angen lleol yn gyfyngedig. Sylfaenol i wella gwasanaethau fydd datblygu systemau cipio gwybodaeth ac arolygu gwybodaeth sy’n cael ei dal gan wasanaethau a gomisiynwyd

Nododd Grŵp Rhaglen Gofalwyr HSC&WbS, ar y cyd â’r Fforwm Gofalwyr 3 maes allweddol sy’n cael eu hystyried yn sylfaenol o ran diwallu anghenion gofalwyr:-

- Cynyddu ymwybyddiaeth
- Adnabod yn well
- Asesu mwy

Mae Cynllun Gweithredu 3 blynedd y Grŵp yn nodi tri amcan blaenaf, sy’n cael eu rhestru isod, yn cael tynnu o ganlyniadau Asesiad Anghenion Strategaeth HSC&WbS:-

- Cael mwy i fanteisio ar asesiadau gofalwyr
- Datblygu rhychwant hyblyg o wasanaethau i gynnal gofalwyr
- Datblygu darpariaeth seibiannau byr i gynnwys cefnogi'r teulu

Crynodeb o'r gwasanaethau presennol

Mae'r tabl gwasanaethau isod yn rhestru'r rhai sydd ar gael i ofalwyr yn lleol, sy'n hysbys i'r Grŵp Rhaglen Gofalwyr fel rhai'n derbyn arian cyhoeddus o'r SSD neu BILl neu o Grant Gofalwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ac, fel y cyfryw, gwasanaethau gall y Rhaglen Grŵp Gofalwyr ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt. Dylid nodi nad yw hon yn rhestr gyflawn gan fod cyrff eraill yn cael cyllid annibynnol ac yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol mewn meysydd arbenigol.

Tabl Cryno o Wasanaethau Presennol

Prif swyddogaeth	**Gwybodaeth / Cyngor / Cyfranogiad**	**Seibiant dros nos**	**Seibiant yn ystod y dydd**	**Adnabod**	**£ y flwyddyn (cyfanswm 05-06)**	**Ffynhonnell £:** CG = Grant Gofalwyr; ALl = grant ALl; BILl = grant BILl; arall = grant arall SSD = cyllido creiddiol
Gwasanaethau ar gael i holl ofalwyr: £277,551 *(CG=£153,304)*						Cyfanswm = £2,006,027
Swyddog Hyrwyddo Gofalwyr				✔	35,000	£35,000 = CG
NEWCIS	✔				51,468	£21,502 = ALl; £29,966=CG: £5,062 = BILl
Y Groes Goch Brydeinig Adref o'r Ysbyty			✔		25,821	£8,449 = ALl; £2,000 =CG; £15,372 = BILl
Y Groes Goch Brydeinig Cerdyn				✔	7,000	£7,000 = ALl

Prif swyddogaeth	**Gwybodaeth / Cyngor / Cyfranogiad**	**Seibiant dros nos**	**Seibiant yn ystod y dydd**	**Adnabod**	**£ y flwyddyn (cyfanswm 05-06)**	**Ffynhonnell £:** CG = Grant Gofalwyr; ALl = grant ALl; BILl = grant BILl; arall = grant arall SSD = cyllido creiddiol
Gofalwyr						
SSD Swyddog Hawliau Lles rhan-amser	✔				15,000	£15,000 = CG
Crossroads			✔		129,709	£41,746 = ALl; £41,543 = BILl; £46,420 = CG
Fforwm Sirol Wrecsam (Anabledd Dysgu'n unig)	✔				13,553	£13,553 = SSD
Gwasanaethau penodol i ofalwyr oedolion 18-65 oed - £ 601,248 ***(CG=£18,000)***						
Hafal (afiechyd y meddwl)			✔		33,913	£15,913 = ALl; £18,000 = CG
G.A.T.E. tŷ gofal byrdymor (anabledd corfforol)		✔			274,456	£274,456 = SSD
Tai gofal byrdymor x 2 (anabledd dysgu)		✔			292,879	£292,879 = SSD
Gwasanaethau ienodol i ofalwyr pobl hŷn - £413,763 ***(CG=£0)***						
Gofal byrdymor mewn cartrefi gofal preswyl annibynnol (pobl hŷn)		✔			187,036	£187,036 = SSD
Gofal byrdymor mewn cartrefi gofal annibynnol (henoed bregus eu meddwl)		✔			44,693	£44,693 = SSD

Prif swyddogaeth	**Gwybodaeth / Cyngor / Cyfranogiad**	**Seibiant dros nos**	**Seibiant yn ystod y dydd**	**Adnabod**	**£ y flwyddyn (cyfanswm 05-06)**	**Ffynhonnell £:** CG = Grant Gofalwyr; ALl = grant ALl; BILl = grant BILl; arall = grant arall SSD = cyllido creiddiol
Gofal byrdymor mewn cartrefi nyrsio annibynnol (pobl hŷn)		✔			39,660	£39,660 = SSD
Gofal byrdymor mewn cartrefi gofal annibynnol (henoed bregus eu meddwl)		✔			15,974	£15,974 = SSD
Gwasanaeth gwarchod dros nos		✔			126,400	£126,400 = SSD
Gwasanaethau i ofalwyr ifanc neu rieni'n gofalu am blant - £713,465 *(CG=£77,874)*						
Dynamic (cynllun gofal plant Daybreak)			✔		33,500	£30,000 = CG; £3,500 = arall
Gofalwyr Ifanc NCH			✔		55,152	£24,352 = ALl; £30,800 = CG; £4,846=BILl
Cefnogaeth Gartref			✔		10,701	£10,701 = CG
Cyfeillion teulu plant 5 i 11 oed			✔		6,373	£6,373 = CG
Tŷ gofal byrdymor Rhodfa Tapley		✔			607,739	£607,739 = SSD
Lleoliad mewn teulu		✔			Amherth-nasol	SSD ar sail unigolyn - dim cyllideb ar wahân

Cefnogaeth Gyffredinol i Ofalwyr a Chefnogaeth i Ofalwyr Aeddfed (h.y. ac eithrio gofalwyr ifanc a rhieni'n gofalu am blant) - holl ffynonellau arian ar sail y tabl ar y dudalen flaenorol
Cyfanswm = £1,292,562



Cloriannu

Materion yn codi o adolygiad 2004 o wasanaethau gofalwyr a ddarparwyd trwy Grant Gofalwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru:-

Dangosodd gwasanaethau wendidau yn y meysydd canlynol ac, felly, roedd angen iddynt wneud y canlynol:-

- canolbwyntio mwy ar gyflawni canlyniadau blaenoriaethol a gytunwyd ar gyfer gofalwyr
- estyn a manteisio gymaint ag y bo modd
- datblygu mewn ymateb i atborth
- datblygu ar sail cyfeiriad strategol a gytunwyd
- cyflwyno ar draws rhychwant y grwpiau cleientiaid
- cyflwyno yn unol â safonau a gytunwyd
- cyflwyno ar sail asesiad

Dangosodd yr adolygiad fod angen y canlynol:-

- cynllunio gofal yn fwy cyfannol gyda gofalwyr
- adolygiadau rheolaidd o gynlluniau gofal
- cyhoeddusrwydd ehangach i gyrraedd gofalwyr cudd
- rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael

Blaenoriaethau at Weithredu

Ar sail rhychwant y dystiolaeth a chloriannu lleol, dros y 3 blynedd nesaf mae angen i'r bartneriaeth leol wneud y canlynol:-

a) **Cynyddu ymwybyddiaeth** o hawliau gofalwyr ymhlith y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol
b) Atgyfnerthu a chynyddu dosbarthiad **gwybodaeth ar gyfer gofalwyr**
c) Atgyfnerthu **proses asesu gofalwyr**
d) Datblygu **cylch archwilio** i gynnwys gwybodaeth o asesiadau gofalwyr a sylwadau gofalwyr eu hunain
e) Adolygu a datblygu **gwasanaethau seibiant byr a gofal seibiant**, yn ystod y dydd a thros nos, ar draws holl grwpiau cleientiaid
f) Darparu mwy o **gymorth uniongyrchol ac ymarferol neu dechnegol** yng nghartrefi pobl eu hunain
g) Gwella'r **gefnogaeth i gyflogeion** sy'n ofalwyr

Geiriau gofalwyr lleol

‘Mae ei gyflwr cronig wastad yn newid sy’n golygu na allaf ei adael yn aml … mae’n cyfyngu ar ble a phryd y gallaf fynd allan a rhaid cynllunio popeth …. rwy’n teimlo pwysau cyfrifoldeb ac wedi blino o hyd … rwy’n poeni y gallwn gael damwain gartref trwy fod mor flinedig ac yn methu canolbwyntio.’ *Merch briod gyda baban a phlentyn bach, yn gofalu am ei thad sy’n byw gyda hwy – dyfyniad o Asesiad Gofalwr*

‘Mae gennyf draul gyffredinol ar fy asgwrn cefn all effeithio ar fy ngallu i ofalu yn y dyfodol … rwy’n dioddef pwysedd gwaed uchel a thyroid tanweithredol. Mae straen delio â phopeth yn fy mlino’n lân.’ *Gwraig yn gofalu am ei gŵr - dyfyniad o Asesiad Gofalwr*

‘Nid siaradodd neb â fi erioed ynghylch fy nheimladau neu anghenion fy hun – mae diddordeb pawb yn sut mae’r person dan ofal yn dod i ben …. Ni chafodd fy Asesiad Gofalwyr ei adolygu ond mae fy anghenion yn newid – mae ein mab un yn ei arddegau erbyn hyn ac mae cyflwr fy ngŵr yn dirywio, Yn ddiweddar rwyf wedi datblygu llid y cymalau oedd yn creu anawsterau enfawr i ni pan fu raid i mi gael llawdriniaeth fy hun.’ *Gwraig yn gofalu am ei gŵr – holiadur a atebwyd mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

‘Heb y gwasanaethau hyn (Gofal Cartref SSD a Crossroads) ni allem ddod i ben. Maent yn cysuro fy ngwraig ac yn rhoi rhywfaint o seibiant i mi’ *Gŵr yn gofalu am ei wraig – holiadur a atebwyd mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

‘I ateb fy nghwestiwn ynghylch beth fyddai’n digwydd pe bawn yn llenwi’r ffurflen (Asesiad Gofalwyr) ‘dim’ oedd yr ateb. Gan fod fy amser yn cael ei ymestyn i’r terfyn ac yn aml y tu hwnt, ni wnes i ddim yn ei gylch’ *Gŵr yn gofalu am ei wraig - holiadur a atebwyd mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

‘Dylai gweithwyr proffesiynol GIG dalu llawer mwy o sylw i sylwadau gofalwyr. Dylent fod yn fwy agored a gonest gyda gofalwyr a rhoi gwybodaeth am gleifion a’u cyflwr ….. mae cyfathrebu gwael rhwng amrywiol adrannau ac asiantaethau. Mae swm enfawr o

arian yn cael ei wastraffu ar hyn a biwrocratiaeth arall.' *Gŵr yn gofalu am ei wraig - holiadur a atebwyd mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

'Byddai unrhyw wasanaethau allai gymryd y straen oddi arnaf a rhoi mwy o amser i fod yn deulu'n helpu.' *Merch yn gofalu am ei thad sy'n byw yn rhywle arall – holiadur a atebwyd mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

'Wnaeth y gweithiwr cymdeithasol ddim sôn am unrhyw grwpiau cefnogi sydd ar gael yn Wrecsam. Roedd rhestr y gwasanaethau'n 4 oed. Pan holais ynghylch y ddeddf newydd, dywedwyd wrthyf am ffonio AVOW, roedd y rhif yn y llyfr.' *Merch yn gofalu am ei thad sy'n byw yn rhywle arall – holiadur a atebwyd mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

'Mae angen cael cefnogaeth i frodyr a chwiorydd a chymorth i rieni dreulio amser gyda'r brodyr a chwiorydd.' *Gofalwr yn rhoi atborth mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

'Mae angen i gefnogaeth fod yn hyblyg ac nid o hyd ynghylch mynd allan neu gael eich cymryd allan.' *Gofalwr yn rhoi atborth mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

'Dylid cymryd barn gofalwyr fel blaenoriaeth – maent yn gwybod beth yw anghenion pwy bynnag sydd dan eu gofal.' *Gofalwr yn rhoi atborth mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

'Mae gofalwyr angen cyfle i gyfrannu'n gynharach at gynllunio a datblygu strategaethau sy'n effeithio arnynt er mwyn gwneud cyfraniad ystyrlon.' ….*Gofalwr yn rhoi atborth mewn Achlysur Wythnos Gofalwyr*

Nodau a Gweledigaeth

Mae Cynllun Awdurdod Begwn y Llywodraeth (Lloegr yn unig) wedi cymryd cefnogi gofalwyr fel y thema ar gyfer 2005. Mae'r Panel Cynghori'n seilio ei benderfyniad ar y dyfarniad ar asesiad gyferbyn â'r meini prawf penodol canlynol (gwelwch 'Gwybodaeth Gefndir' i gael rhagor o fanylion) y mae'n amlwg y dylai ein gwasanaethau lleol ein hunain ymdrechu eu cyrraedd hefyd:-

a) Canlyniadau amlwg
b) Boddhad defnyddiwr a'r gymuned
c) Gweledigaeth a strategaeth
d) Ymgynghori
e) Partneriaethau
f) Gweithrediadau

Trwy ddarparu gwasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth a dewis a thrwy roi cefnogaeth hyblyg, ymatebol i ofalwyr, mae modd cynnal y sefyllfa ofalu gynaliadwy. Gyda chefnogaeth briodol, mae gofalwyr yn llai tebygol o fynd i'r cyrion tra byddant yn gofalu am rywun ac yn fwy tebygol o fynd yn ôl i weithio pan ddaw eu swyddogaeth ofalu i ben. *(Gwefan Gofalwyr DofH Medi 2005)*

Wrth ddatblygu'r Cynllun Comisiynu hwn, nodwyd cydrannau allweddol gwasanaethau i ofalwyr yn yr Awdurdodau Begwn ac mae Wrecsam yn bwriadu darparu gwasanaethau i ofalwyr sy'n debyg i'r rhai hynny yn yr Awdurdodau Begwn. Y dyheadau hyn a'r wybodaeth o ymchwil leol a chenedlaethol sydd wedi arwain canfod canlyniadau y bydd y comisiynwyr yn blaenoriaethu datblygiad ein gwasanaeth arnynt.

Canlyniadau i'w Cyflawni ac Amcanion at Weithredu

Blaenoriaeth Drosfwaol: Bod amrywiaeth hyblyg o gefnogaeth ar gael yn gyfartal i holl ofalwyr drwy'r fwrdeistref sirol i gyd

Canlyniadau:-

1. Mwy o bobl yn gweld eu hunain fel gofalwyr ac yn hawlio cefnogaeth
2. Grwpiau proffesiynol allweddol gyda systemau'n bodoli i nodi gofalwyr a'u cysylltu â chefnogaeth
3. Mae amrywiaeth o wasanaethau sy'n cynnal iechyd emosiynol, meddyliol a chorfforol gofalwyr, gan gynnwys darparu seibiant byr priodol a hyblyg

Amcanion at Weithredu:-

1. Cael mwy i fanteisio ar asesiadau
2. Datblygu amrywiaeth hyblyg o wasanaethau i gynnal gofalwyr
3. Datblygu darpariaeth seibiant byr i gynnwys cefnogi'r teulu

Dangosyddion Perfformiad

Fel y nodwyd uchod, mae angen gwneud gwaith i greu sail gadarn i adeiladu arni a datblygu gwasanaethau i gynnal gofalwyr. Nid yw rhai o'r meysydd neu faterion y byddai modd eu mesur i ddangos cynnydd wedi cael eu mesur yn gywir hyd yn hyn.

Felly, gwaith cyntaf yw sefydlu mannau cychwyn i fesur cynnydd ohonynt lle nad ydynt yn bodoli eisoes. Bydd hyn yn cael ei wneud o wybodaeth a gasglwyd yn y chwarter cyntaf ac yna byddwn yn ceisio gwella ar y mannau cychwyn hyn ymhob chwarter dilynol. Bydd mannau cychwyn yn cael eu pennu, a chynnydd yn cael ei fesur wedyn, ar y dangosyddion isod.

Dangosyddion Perfformiad y mae mannau cychwyn ar eu cyfer:-	Man Cychwyn	Targed Mawrth 07	% Gwelliant
Nifer y gofalwyr a gofrestrwyd gyda NEWCIS	400 (Mawrth 06)	500	25%
Nifer y nosau o seibiant byr a gomisiynwyd y 1,000 o boblogaeth 18 oed a hŷn	141 (Rhagfyr 2005)	150	6%
Nifer y cardiau gofalwyr a gofrestrwyd (Y Groes Goch Brydeinig)	448 (Medi 05)	600	34%
Cyflwyno sesiynau cyfarwyddo ar faterion gofalwyr i wasanaethau GP	0 (Mawrth 06)	4	Newydd
Nifer y systemau adnabod gofalwyr mewn practisau GP	0 (Mawrth 06)	4	Newydd
Nifer y sesiynau hyfforddi ar faterion gofalwyr ar gyfer staff asesu a gynhaliwyd yn 2006/7	0 (2005/6)	3	Newydd
Nifer y gwasanaethau gofalwyr a gynigiwyd yn 2006/7	0 (2005/6)	5	Newydd

Dangosyddion Perfformiad y bydd mannau cychwyn yn cael eu sefydlu ar eu cyfer erbyn Gorffennaf 2006

- Nifer ymholiadau gofalwyr a dderbyniodd y Tîm Asesiad Cyswllt
- Nifer y teuluoedd yn cael seibiannau byr o wasanaethau'r sector gwirfoddol (Oedolion)
- Nifer y teuluoedd yn cael seibiannau byr o wasanaethau SSD (Oedolion)
- Canran y gofalwyr dynodedig yn defnyddio gwasanaeth oedolion a gafodd gynnig asesiad
- Canran y gofalwyr dynodedig yn defnyddio gwasanaeth oedolion a gafodd asesiad
- Canran y gofalwyr dynodedig yn defnyddio gwasanaeth oedolion a gafodd asesiad drwy eu hawl eu hunain
- Canran y gofalwyr dynodedig yn defnyddio gwasanaeth oedolion a gafodd wasanaeth ar ôl cael eu hasesu
- Canran y gofalwyr dynodedig yn defnyddio gwasanaeth oedolion sy'n aros am asesiad

Cynllun Gweithredu STRATEGAETH GOMISIYNU GOFALWYR 2007-08

Blaenoriaeth Drosfwaol: Mae amrywiaeth hyblyg o gefnogaeth ar gael yn gyfartal i holl ofalwyr drwy'r fwrdeistref sirol i gyd						
Canlyniad	1. Mwy o bobl yn gweld eu hunain fel gofalwyr ac yn gwneud cais am eu hawl statudol i gefnogaeth. 2. Mae gan grwpiau proffesiynol allweddol gyfundrefnau i adnabod gofalwyr a'u cysylltu â chefnogaeth. 3. Mae amrywiaeth o wasanaethau sy'n cefnogi iechyd emosiynol, meddyliol, a chorfforol gofalwyr gan gynnwys darparu seibiant byr priodol, hyblyg.					
Camau Allweddol	**Amserlen** (h.y. pan fydd y weithred hon yn cael ei chwblhau)	**Swyddog Arweiniol** (unigolyn penodedig, nid grŵp)	**Chwarter 1** (bedd ddisgwyliwch ei gyflawni erbyn diwedd Q1)	**Chwarter 2** ac ati	**Chwarter 3** ac ati	**Chwarter 4** ac ati
Amcan Blaenoriaethol 1: Cael mwy o ofalwyr i fanteisio ar asesiadau						
1. a) Arolygu a chloriannu Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr cyfredol a ail-gyfluniwyd.	Adroddiad llawn Diwedd Mawrth 08	KM	Cytunwyd ar y templed arolygu • Adolygwyd Cerdyn Gofalwyr y Groes Goch Brydeinig	Arolygu ail chwarter Diwedd Medi	Arolygu 3ydd chwarter Diwedd Rhagfyr	Arolygu 4ydd chwarter **Diwedd Mawrth** Derbyn adroddiad cloriannu diwedd y flwyddyn ac ymateb.

			• Adolygwyd Fforwm Anableddau Dysgu • Arolygu chwarter cyntaf **Diwedd Mehefin**			
b) Comisiynu Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr **newydd** gyda chontract 3 blynedd.	Diwedd Mawrth 08	KM	Fel yr uchod	Cytuno ar y tendr	Tendr yn cael ei hysbysebu	Comisiynu Gwasanaeth
c) Gwneud gwaith cynyddu ymwybyddiaeth ar hyd a lled Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i annog cyflogeion sy'n ofalwyr i gofrestru	Diwedd Medi 07	KM	• Datblygu deunydd cyhoeddusrwydd. • Cytuno ar raglen o ddosbarthiad / sesiynau	• Wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth	Cloriannu	

gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr a hawlio asesiad a chefnogaeth						
d) Nodi dewisiadau i ddatblygu Canolfan Gofalwyr yn y dref	Diwedd Mawrth 08	KM/SR	Archwilio dewisiadau	Cytuno ar ddewisiadau	Ymgynghori	Cytuno ar y dewis terfynol
Amcan Blaenoriaethol 2: Datblygu rhychwant hyblyg o wasanaethau i gynnal gofalwyr						
2. a) Cytunodd a gweithredu Protocol ar gyfer staff Gofal Iechyd Sylfaenol a ddatblygodd y Swyddog Hyrwyddo Gofalwyr yn ffurfiol	Diwedd Mawrth 08	CN	Datblygu protocol drafft	Ymgynghori ar y protocol drafft	• Protocol diwygiedig • Cytundeb ffurfiol • Cytuno ar beirianwaith arolygu a chloriannu	Gweithredu

b) Datblygu Cyfundrefn Asesu Unedig i wella adnabod gofalwyr a chynnig asesiad a chefnogaeth iddynt gan holl weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol	Diwedd Mawrth 08	SF	• Ailgydio â SF • Edrych eilwaith ar Barth Gofalwyr	Asesu effeithiolrwydd casglu data o nifer yr Asesiadau Gofalwyr a gynigiwyd ac a wnaed		
c) Adeiladu ar Arolwg Derbyniad i'r Ysbyty a Rhyddhau NEWCIS 2006 i wella adnabod a chefnogi gofalwyr gan staff allweddol yn yr ysbytai.	Diwedd Mawrth 08		Prosiect ymchwil i gloriannu cydymffurfio â pholisi rhyddhau a gytunwyd	• Dechrau casglu data • Gorffen casglu data Diwedd Medi		• Adroddiad cloriannu (Diwedd Ionawr) • Cytuno ar argymhellion (Diwedd Chwefror)

d) Arolygu, cloriannu a datblygu Protocol SSD ar gyfer asesu Gofalwyr, i gynnwys peirianwaith i ganfod angen heb ei ddiwallu ac adolygu asesiad gofalwyr	Diwedd Mawrth		Gwerthuso cyfundrefnau arolygu a chloriannu (RAISE)	Protocol wedi'i adolygu	Ymgynghori ar y protocol drafft	Cyfundrefn gadarn i gasglu data'n bodoli i ganfod – • Nifer yr Asesiadau Gofalwyr sy'n cael eu cynnig a'u gwneud. • Cynnal adolygiadau blynyddol. • Nodi'r canlyniadau. • Cipio data angen heb ei ddiwallu.
g) Arolygu a chloriannu Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru a'r Groes Goch Brydeinig ar greu cofrestr gofalwyr unigol	Diwedd Rhagfyr 07		• Adolygu Cerdyn Gofalwyr y Groes Goch Brydeinig • Adolygu Cofrestr Gofalwyr NEWCIS	Ymgynghori Cytuno ar argymhellion	Dynodi gwasanaeth	
e) Cytuno ar wasanaeth i gadw	Diwedd Mawrth 08					• Sefydlu un gofrestr. • Archwilio dewis

cofrestr gofalwyr a datblygu cyfundrefn gynllunio argyfwng wrth gefn						cynllun gofal mewn argyfwng.
f) Adeiladu ar y fanyleb drosiannol (gofalwr aeddfed ifanc) (cynnig PRTC) i ddatblygu gwasanaeth yn Wrecsam						
Amcan Blaenoriaethol 3: Datblygu darpariaeth seibiant byr i gynnwys cefnogaeth i'r teulu						
3. a) Dilyn y prosesau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu SSD Seibiant Dros Nos Byrdymor.		KM				

b) Dilyn y prosesau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Gofal Dydd SSD		Ben Carter SSD	Cyflwyno adroddiad			
c) Derbyn, mabwysiadu a symud ymlaen yn ffurfiol yr adroddiad ar gyfer cefnogi ffyniant emosiynol ac iechyd meddwl gofalwyr a gomisiynwyd gyda Grant Iechyd Meddwl Gofalwyr 2006/07, gan gynnwys yr angen i ail-gyflunio ac ail-		MH	Derbyn Adroddiad			

gomisiynu'r gwasanaeth.						
d) Symud ymlaen gweddill y gweithrediadau o Gynllun Prynu Gofalwyr: a. cyngor ariannol a chefnogaeth gynhwysfawr i ofalwyr, gan gynnwys cyngor ar fudd-daliadau, rheoli dyled a'r cynllun grantiau bach sydd ar gael b. Cyngor a chefnogaeth ar waith a		KM/SR Grŵp Darparwyr		Grŵp Darparwr i gytuno ar ddau gam gweithredu		

chyfleoedd hyfforddi i ofalwyr allu aros mewn / dychwelyd i / newid cyflogaeth. c. cyngor a chefnogaeth therapyddion i ofalwyr (therapydd lleferydd ac iaith, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol) d. darparu TG a thechnoleg gynorthwyol mewn cartrefi unigol						

e) Gwasanaeth Sefydlu Rhwydwaith Darparwyr			• Cyfarfod agoriadol • Cytuno ar TOR	Cytuno ar gynllun gwaith ar gyfer y camau uchod (3d)		Cloriannu cynnydd
f) Arolygu, cloriannu a datblygu'r Fforwm Gofalwyr a pheirianwaith cysylltiedig ar gyfer ymgynghori a chynnwys gofalwyr gan y Gwasanaeth Hysbysu a Chefnogi Gofalwyr.		KM/SR	Sefydlu peirianwaith ar gyfer y Gwasanaeth Hysbysu a Chefnogi Gofalwr i ymgynghori â Gofalwyr a chorff arall yn cefnogi gofalwyr			
Costau / risgiau ariannol	1. Risg ariannol y Cynllun Gweithredu llawn oherwydd diffyg adnoddau ac ymrwymiad i dalu am newid					
Risgiau anariannol	1. a) Gwasanaeth heb fod yn cydymffurfio â'r canlyniadau a gytunwyd. Fe all beri analluogi sefydliadau oni bai fod adolygu cadarn o BRX a'r Fforwm b) Diffyg cytundeb ar y tendr, Cynigion heb fod yn dderbyniol c) Diffyg cydnabyddiaeth, cyflogeion yn aros yn 'gudd'					

	d) Diffyg cytundeb y sefydliadau i adleoli os yw'n briodol [risgiau yma o ran pob un o'r camau] 2. a) Angen derbyniad holl staff yn holl bractisiau GP

Allwedd: KM – Kate Meredith
SR – Sally Rees
CN – Chris Nordoff (Swyddog Hyrwyddo Gofalwyr [CFO])
MH – Maureen Howell
SF – Sue Fitton

8. Cynllun Prynu: Caiff gwasanaethau eu comisiynu i ddarparu canlyniadau iechyd a ffyniant cadarnhaol i ofalwyr a rhoi gwerth gorau

Gwasanaethau gofynnol	Gwasanaethau a gyllidwyd yn 2005-6	Gweithredu 2006/7	Gweithredu 2007/8	Gweithredu 2008/9
A: Darparu gwybodaeth: 1. Darparu, adolygu a diweddaru'r Pecyn Hysbysu Gofalwyr a dosbarthu diweddariadau. 2. Darparu ac adnewyddu stociau o'r Pecynnau Gwybodaeth, posteri a thaflenni mewn mannau cyfarfod allweddol. 3. Cyhoeddi a dosbarthu Taflen Newyddion Gofalwyr chwarterol. 4. Darparu canolfan gyda staff sy'n addas ar gyfer mynediad cyhoeddus i annog Gofalwyr i alw heibio i gael	*NEWCIS - £51,468 (yn cynnwys £5,062=BILl).* * *D.S. - mae Fforwm*	Tendr am un sefydliad i gyflenwi gwasanaethau A, B, C, E, F1, J1	Dechrau contract newydd.	Canoli yng nghanolfan adnoddau Gofalwyr.

cefnogaeth cyfoedion anffurfiol a rhannu gwybodaeth. **<u>B: Hwyluso a chefnogi cyfranogiad Gofalwyr wrth gynllunio a darparu'r gwasanaeth:</u>** 1. Hwyluso'r Fforwm Gofalwyr o fewn Fframwaith Strategaeth HSC&WB. 2. Cynrychioli buddiannau Gofalwyr mewn fforymau allweddol e.e. Grwpiau Rhaglen HSC&WB* 3. Datblygu'r Rhwydwaith Gofalwyr fel peirianwaith i gynnwys gofalwyr wrth arolygu a chynllunio gwasanaethau. **<u>C: Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion Gofalwyr ymhlith y cyhoedd:</u>** 1. Cynyddu ymwybyddiaeth trwy hyrwyddo un achlysur cyhoeddus y flwyddyn yn ystod Wythnos Genedlaethol Gofalwyr.	*Sirol Wrecsam hefyd yn cynrychioli Gofalwyr pobl gydag anabledd dysgu yn y Grŵp Rhaglen LD.* *- Mae Cymdeithas Alzheimer yn cynrychioli Gofalwyr pobl gyda demensia yn y Grwpiau Rhaglen MH ac EMH (£10k)* *- Mae'r Cyngor Henoed yn cynrychioli Gofalwyr pobl hŷn yn y Grŵp Rhaglen OP (£21,218)*			

2. Cynnal cronfa ddata / cofrestr gofalwyr trwy hunan gyfeirebau a chyfeirebau o bractisau meddygon teulu, adran gwasanaethau cymdeithasol a thimau cyfun ac ati.				
<u>E: Cefnogaeth Uniongyrchol i Ofalwyr (cefnogaeth anffurfiol i unigolion a grwpiau):</u> Hyrwyddo grwpiau cefnogi reolaidd - Cyffredinol - Penodol	• *NEWCIS (o fewn y dyraniad cyllid uchod i grwpiau cyffredinol)* • *Fforwm Sirol Wrecsam ar gyfer grwpiau anabledd dysgu.* *Hafal (ar gyfer grwpiau iechyd meddwl) - £33,913.*	Tendr am un sefydliad i gyflenwi gwasanaethau A, B, C, E, F1, J1	Dechrau contract newydd.	Canoli yng nghanolfan adnoddau Gofalwyr.

Gwasanaethau gofynnol	£ 2006-07	Camau 2006/7	Camau 2007/8	Camau 2008/9
F: Gwella / cynnal iechyd a ffyniant Gofalwyr: 1. Cyd-drafod, cydgysylltu a rhoi cyhoeddusrwydd i raglen o sesiynau hyfforddi unigol ar gyfer Gofalwyr. 2. Cyflwyno rhaglen hyfforddiant blynyddol i Ofalwyr. 3. Cynnwys Gofalwyr wrth gynllunio a chyflwyno hyfforddiant i staff gofal cymdeithasol. 4. ***Gwasanaethau i liniaru straen ac iselder gofalwyr unigol*** 5. ***Cyngor therapi galwedigaethol unswydd i ofalwyr unigol*** 6. ***Cyngor ffisiotherapi unswydd i ofalwyr unigol***	*Hafal a NEWCIS o fewn y dyraniadau cyllid uchod* *Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol (o fewn cyllideb adnoddau dynol / hyfforddiant).* *NID YW AR GAEL AR HYN O BRYD* *NID YW AR GAEL AR HYN O BRYD* *NID YW AR GAEL AR HYN O BRYD*	Tendr am un sefydliad i gyflenwi gwasanaethau A, B, C, E, F1, J1 F2, 3 - cyflenwi trwy gynllun hyfforddiant SSD a datblygu cloriannu dewisiadau gyda darparwyr hyfforddiant eraill.	F4, 5, 6 - datblygu cloriannu dewisiadau.	
G: Cynyddu ymwybyddiaeth yn y gwasanaethau gofal sylfaenol: 1. Dylunio a chyflwyno cynyddu ymwybyddiaeth i staff mewn practisau meddygon teulu a fferyllfeydd. 2. Cyd-drafod a datblygu peirianwaith ar gyfer canfod Gofalwyr yng nghofnodion practisau meddygon teulu. 3. Hyrwyddo asesu anghenion Gofalwyr mewn practisau	*£35,000 o fewn Tîm Asesiad Cyswllt SSD (CAT) am Swyddog Hyrwyddo Gofalwyr.*	Talu am y swydd tan ddiwedd Mawrth 2008	Talu am y swydd tan ddiwedd Mawrth 2008	

meddygon teulu.				
H: Cynyddu ymwybyddiaeth (corfforaethol): 1. Dylunio a chyflwyno cynyddu ymwybyddiaeth i staff perthnasol ar draws asiantaethau.	*£35,000 o fewn Tîm Asesiad Cyswllt SSD (CAT) am Swyddog Hyrwyddo Gofalwyr.*	Talu am y swydd tan ddiwedd Mawrth 2008	Adolygu'r swydd a phenderfynu a fydd angen cynyddu ymwybyddiaeth yn y dyfodol. Cyd-drafod cyfuno o fewn cynlluniau hyfforddiant corfforaethol.	
I: Cefnogaeth 1:1 i Ofalwyr ar unigolion gydag anghenion iechyd y meddwl: 1. Darparu cefnogaeth 1:1 fel cymorth cadarnhaol / therapiwtig i'r rhai dan ofal wrth roi seibiant i'r gofalwr.	*£125,000 arfaethedig (wedi'i glustnodi am flwyddyn) CG(MH) - meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w terfynu*	Cytuno ar batrwm cyflenwi gwasanaethau a chomisiynu gwasanaeth - blaenoriaeth i ofalwyr ifanc pobl gydag anghenion iechyd meddwl a gofalwyr pobl gyda demensia /	Adolygu tegwch gwasanaethau cefnogi 1:1 ar draws holl grwpiau gofalwyr a phennu cynllun i sicrhau mynediad teg.	Dechrau contract newydd am wasanaeth cefnogi 1:1.

		pobl hŷn gydag anghenion iechyd meddwl. Argymell clustnodi'r cyllid ar gyfer gofalwyr yn y blynyddoedd a ddaw	Tendr am wasanaethau cefnogi 1:1	
J: Cefnogi Gofalwyr mewn Argyfwng: 1. Cynnal cofrestr Gofalwyr a chysylltiadau allweddol / cyfarwyddiadau gofal rhag ofn argyfwng (yn gysylltiedig â Care-Call). 2. Gwasanaeth gofal nos byrdymor a chartref mewn argyfwng i bobl dan ofal.	*Y Groes Goch Brydeinig £7,000* *gwasanaeth gwarchod nos SSD = £126,400*	Tendr am un sefydliad i gyflenwi gwasanaethau A, B, C, E, F1, J1	Dechrau contract newydd.	
K: Gofal a chefnogaeth ganolraddol (ar ôl rhyddhau o'r ysbyty): 1. Cynllun Adref o'r Ysbyty. 2. Cynllun benthyca cadair olwyn	*Y Groes Goch Brydeinig £25,821 (yn cynnwys £15,372 =BILI)* *NID YW'N CAEL EI ARIANNU AR HYN O BRYD*	1. Tendr gwasanaeth a chynyddu faint ohono. 2. Adolygu mynediad at wasanaeth benthyg cadair olwyn a chymorth ariannol ar ei gyfer.	1. Dechrau contract newydd.	
L: Gwasanaethau gofal byrdymor: 1. Gwasanaeth Cartref eistedd / cyfeillachu yn ystod y dydd ar gyfer pobl dan ofal.	*Crossroads - £129,709 (yn cynnwys ££41,543 = BILI)*	L1 - gwasanaeth tendr yn dilyn adolygu safon gwasanaeth gofynnol.	L1 - Dechrau contract newydd.	

2. Cynllun Lleoli Oedolion 3. Gwasanaeth gofal byrdymor dros nos a drefnwyd (preswyl) ar gyfer pobl dan ofal.	*£50,000 SSD.* PhDis £274,456 LDis 292,879 Ind res 187,036 Ind Nyrs 39,660 Ind res EMI 44,693 Ind Nse EMI 15,974.	L2 - dechrau prosiect rhagbrofol SSD. L3 - contract bloc am EMH preswyl a nyrsio gofal byrdymor mewn cartref gofal.	L2 - cloriannu rhagbrawf a nodi angen yn y dyfodol am ddarpariaeth breswyl gofal byrdymor	
M: Sefydlu Canolfan Adnoddau Gofalwyr yn y dref		Cloriannu dewisiadau i'w gwblhau	Ceisio grant dechrau	Llety diogel a thendr am ddarparwr gwasanaeth i gyflenwi A, B, C, E, F1, J uchod.

Y BROSES YMGYNGHOROL

Er mwyn cael consensws ar ein hasesiad o angen a'n blaenoriaethau datblygu, cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol, rhwng mis Hydref 2005 a mis Ionawr 2006.

Gwahoddwyd ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynnwys y ddogfen ac, yn benodol, mewn cysylltiad â'r canlynol:

1. Dadansoddiad o angen lleol. [Rhagor o dystiolaeth o angen lleol a dderbyniwyd oddi wrth unigolion a sefydliadau'n cefnogi gofalwyr].
2. Canlyniadau arfaethedig gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu. [Tystiolaeth o ganlyniadau ychwanegol sydd eu hangen gan ofalwyr yn Wrecsam].
3. Bylchau mewn gwasanaethau. [Tystiolaeth o fylchau eraill mewn gwasanaethau ac angen heb eu diwallu].
4. Drafft y cynllun gweithredu. Gofynnwyd yn benodol i atebwyr nodi'r 5 blaenoriaeth weithredu uchaf yn y cynllun hwn a nodi unrhyw feysydd datblygu eraill heb eu dynodi yn nrafft y cynllun gweithredu ar gyfer 2006/7

Yn ogystal, gofynnwyd i unigolion a sefydliadau ddarparu cloriannu manwl seiliedig ar dystiolaeth o wasanaethau i ofalwyr yn Wrecsam – sut mae gwasanaethau yn Wrecsam wedi gwella ansawdd bywyd, neu ansawdd bywyd pobl dan ofal?

Dosbarthwyd y Cynllun drafft yn eang yn amlasiantaethol. Ymgynghorwyd â:-

1. Holl Dimau Gwasanaethau Oedolion yn Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol (21, gan gynnwys timau cymunedol ar y cyd fel iechyd meddwl)
2. Grŵp Rhaglen Gofalwyr y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant
3. Fforwm Gofalwyr y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant
4. Y Rhwydwaith Gofalwyr gyda chefnogaeth NEWCIS
5. Fforwm Sector Gwirfoddol Plant a Phobl Ifanc
6. Fforwm Sector Gwirfoddol Iechyd a Gofal Cymdeithasol

7. Is-grŵp Plant gydag Anghenion Cymhleth Fframwaith Wrecsam ar gyfer Partneriaeth
8. Grŵp Rhaglen Pobl Hŷn y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant

TREFN AROLYGU

Bydd y canlynol yn goruchwylio cynnydd y cynlluniau gweithredu blynyddol:

i) Cyfarfodydd chwarterol o Dîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
ii) Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai'r Cyngor a
iii) Adroddiadau rheolaidd i'r partneriaid cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant trwy'r Grŵp Rhaglen Gofalwyr.

Y disgwyl yw y bydd grŵp llywio amlasiantaethol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn i ddatblygu'r cynlluniau gweithredu ar gyfer 2007/8 a 2008/9 ac i adolygu'r strategaeth gomisiynu ar gyfer 2009/10.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu dangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, sydd i ddod i rym o fis Ebrill 2006 ymlaen a'r disgwyl yw y bydd Asesiad Gofalwyr a gwasanaethau Gofalwyr yn ofynion perfformiad allweddol. Mae'r Adran yn cyflwyno adroddiadau chwarterol ar ei berfformiad at ei gilydd gyferbyn â thargedau a bennwyd yn lleol a ledled y wlad ac yn cynhyrchu adroddiad perfformiad blynyddol.

CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH

Nodiadau Esboniadol, Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004, Y Llyfrfa

Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 a Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 Canllawiau Polisi Cyfunol, DofH Awst 2005

Cyfrifiad 2001, gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Adroddiadau Ymchwil Carers UK:-

- Back Me Up – cefnogi gofalwyr pan fyddant ei angen fwyaf (2005)
- In Poor Health: effaith gofalu ar iechyd (2004)
- Hearts and Minds: effaith gofalu ar iechyd (2004)
- Without us: cyfrif gwerth cefnogi gofalwyr (2002)
- Missed Opportunities: effaith hawliau newydd gofalwyr (2003)
- Young Carers in the UK (2004)
- Redressing the Balance: cynhwysiad, gallu cystadleuol a dewis (2001)
- Adding Value: gofalwyr fel gyrwyr newid cymdeithasol (2002)
- You Can Take him Home Now: profiadau rhyddhau o'r ysbyty (2001)
- Caring on the Breadline: goblygiadau ariannol gofalu (2000)

Research Into Practice 2005: gofalwyr yn anwybyddu eu hanghenion eu hunain oherwydd absenoldeb cefnogaeth

Gwefan Cymdeithas Alzheimer 2005: Ymchwil i gefnogi gofalwyr

Canolfan Genedlaethol Ymchwil a Datblygiad Gofal Sylfaenol 2001: gofalwyr hŷn pobl hŷn eiddil a'r rhyngwynebau gyda gwasanaethau gofal sylfaenol

Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr: Prosiect Codi Llais Gofalwyr Barclays (2003)